MENTER IAITH BRO MORGANNWG

# Adroddiad Blynyddol 2019

## Rhagair y Cadeirydd

Mae blwyddyn arall wedi gwibio heibio! Dyma gyfle unwaith eto felly i edrych yn ôl ar flwyddyn o weithgarwch, yn ogystal ag edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod.

Fe fu hi'n flwyddyn brysur arall o drefnu gweithgareddau a hyrwyddo'r Gymraeg yn y Fro, o glybiau plant i Gigs Bach y Fro, ac wrth gwrs, Gŵyl Fach y Fro, sy'n dal i fynd o nerth i nerth.

Mae un newid pwysig wedi bod i'r Fenter eleni. Wedi pum mlynedd yn y swydd, fe ffarwelion ni a'n Swyddog Datblygu, Ffion Rhisiart ddechrau'r haf. Cawsom gyfle i ddiolch iddi am ei holl waith yng Ngŵyl Fach y Fro - ei diwrnod olaf yn y swydd! Mae'n dyled ni'n fawr i Ffion am adael y Fenter ar seiliau cadarn. Yn fuan wedyn, fe groesawon ni Manon Ifan, ein Swyddog Datblygu newydd, a daflodd ei hun i mewn i'r gwaith yn syth dros wyliau'r haf. Croeso aton ni Manon, ac ry ni'n edrych ymlaen yn fawr at y flwyddyn i ddod.

Diolch yn fawr i bawb sy'n cefnogi'r Fenter mewn amryw ffyrdd - i'r rhai sy'n dod i'r digwyddiadau, i Gyngor Bro Morgannwg, Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chronfa'r Loteri, i aelodau'r Bwrdd Rheoli, ac wrth gwrs i staff y Fenter, dan arweiniad y Prif Weithredwr, Manon Rees O'Brien, am eu gwaith caled a'u dyfalbarhad.

Gan edrych ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn 2020.

**Cadeirydd – Gwenllian Grigg**

## Diolch!

Am flwyddyn! Braint yw rhannu rhai o brif lwyddiannau Menter Iaith Bro Morgannwg.

Wrth bori drwy'r ystadegau cewch flas ar ystod gwaith Menter Iaith Bro Morgannwg gyda'i rhaglen eang o glybiau a sesiynau amrywiol mewn cymunedau ar hyd a lled Bro Morgannwg i blant, teuluoedd ac oedolion.

Rwy'n ymfalchïo yn yr arlwy eang o weithgareddau a digwyddiadau mae staff ymroddgar Menter Iaith Bro Morgannwg yn cydlynnu, cefnogi a chynnal ar y cyd â thiwtoriaid, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, partneriaid a chefnogwyr diflino, gan gyfoethogi bywydau trigolion cymunedau Bro Morgannwg gydol y flwyddyn.

## Beth nesaf?

Wrth edrych ymlaen tuag at 2020 byddwn yn adeiladu ar y llwyfan gadarn a pharhau i ddatblygu cyfleoedd cymdeithasol cymunedol i ehangu defnydd y Gymraeg ym Mro Morgannwg.

Mae gan Menter Iaith Bro Morgannwg rôl allweddol yn y gwaith hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn ein cymunedau a mynd i'r afael â chefnogi prif flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Manon Rees-O'Brien, Prif Weithredwr**



**"It's a brilliant service that can only bring joy and happiness to children as well as giving them such brilliant social interaction with Welsh language. Perfect."**





**"Mae hi mor braf clywed cymaint o gymraeg yn cael ei siarad ar yr ynys. Lot o fwrlwm gyda phlant yn mwynhau dwy lwyfan gydag amserlen lawn- cymaint yn digwydd! Wedi dwli gweld yr ysgolion a wedi dwli gweld y cylchoedd meithrin yn cymryd rhan – diolch!"**

## TEULU

**2** = **14**

**2 glwb teulu wythnosol –** cyfartaledd o **14 babi/plentyn** ym mhob un

**4**

**25-30**

**4** sesiwn amser stori pob wythnos yn denu **25- 30** teulu pob wythnos

**6**

**6** digwyddiad tymhorol i'r teulu

**MENTER IAITH BRO MORGANNWG**

## PLANT & PHOBL IFANC

### Clybiau 4-8 oed

**10** **200**

**10 clwb wythnosol** gyda dros **200** o blant yn aelodau

### Cynllun Gofal Gwyliau

**25** **9**

**9 wythnos** o ofal gyda chyfartaedd o **25** o blant yn dod pob dydd.

### Bwrlwm

**4 wythnos** o chwarae agored mewn **5 lleoliad** - dros **28 o blant** yn dod i fwynhau ym mhob sesiwn

**4** wythnos

**5** lleoliad

**28** o blant bob dydd

**"Rhywbeth hyfryd a rhad i neud gyda'r teulu i gyd. Joio gwrando ar gwahanol fandiau yn yr iaith gymraeg, ac hyrwyddo'r iaith yn y fro."**

## GWYL FACH Y FRO

**4k**

**4,000 yn dod i fwynhau**

- **50 gweithgaredd**
- **Ail lwyfan perfformio**
- **16 o wirfoddolwyr**





## OEDOLION

**7 cwrs** undydd gyda dros **50 yn mynychu**

Cynnal **2 gig** yn ystod y flwyddyn

## Y GYMUNED

**Dros 1,400** o danysgrifwyr i'r **e@chlysur**

**800** o ddilynwyr ar **Facebook**

**1200** o ddilynwyr ar **Twitter**

**270** o ddilynwyr ar **Instagram**



**"I like my children to be able to speak Welsh naturally during the school holidays with other children. Diolch yn fawr. A fantastic scheme."**



# menterbromorgannwg.cymru

@MenterBroMorgannwg @MIBroMorgannwg Menter_bro_morgannwg

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Llywodraeth Cymru Welsh Government